# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Min y Môr**

**Cartref Preswyl Min y Môr**
**Gerddi Wellington**
**Aberaeron**
**SA46 0BQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/04/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Gofal Preswyl Min y Môr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Chwefror 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn gadarnhaol iawn am y gofal y maent yn ei dderbyn. Cânt eu cefnogi gan dîm o staff ymroddedig a brwdfrydig, sy'n cael eu harwain yn dda gan y rheolwr a'r dirprwy. Mae'r rheolwr a'r dirprwy yn sicrhau bod y bobl yn cael eu cynnwys yn eu gofal ac mae'r staff yn gwerthfawrogi eu harweinyddiaeth.

Mae gan y darparwr weithdrefnau ymweld caeth, ac mae'r cyfyngiadau hyn yn cael effaith negyddol ar iechyd a llesiat y bobl ond mae'r darparwr wedi rhoi sicrwydd i ni bod y rheolaethau bellach wedi'u codi.

Nodwyd bod yr amgylchedd yn faes i'w wella yn yr arolygiad llawn ddiwethaf. Mae'r darparwr wedi cwblhau'r gwaith i'r adeilad ond mae'r addurn yn dal i fod mewn cyflwr gwael. Rydym wedi cyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth oherwydd yr effaith ar lesiant y bobl.

Mae'r darparwr yn cydymffurfio ag ymweliadau rheoleiddio â'r gwasanaeth ac yn defnyddio gwybodaeth o archwiliadau i lywio ei adolygiad o ansawdd y gofal bob chwe mis.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol, sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig. Wrth drafod y gweithwyr gofal, dywedodd unigolyn wrthym *"They are great here, some real characters that make me smile".* Caiff unigolion eu parchu, ac mae'r rhyngweithio rhyngddynt ac â'r tîm staff yn gyfeillgar a chefnogol. Mae'r cynrychiolwyr yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth; dywedodd un, *"They are brilliant, I can't fault them, they are absolutely fantastic".* Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n cynnig 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, a gallant gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg fel y mynnant.

Nid yw'r bobl yn byw mewn cartref sy'n eu hybu i gyflawni eu canlyniadau llesiant bob amser oherwydd polisi ymweld cyfyngedig y darparwr. Ni chaiff y bobl eu trin ag urddas oherwydd fel arfer mae ymweliadau'n cael eu cynnal mewn ardal ddynodedig a nifer cyfyngedig o slotiau amser a ddarperir gan y darparwr. Rhoddodd y darparwr sicrwydd i ni ei fod wedi codi'r cyfyngiadau a'i fod bellach yn rhoi'r dewis i bobl pryd a lle maent yn cwrdd â'u hymwelwyr, yn ei gartref.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu oherwydd bod prosesau recriwtio a hyfforddiant diogel yn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau sefydlu a datblygiad parhaus ac yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac maent yn deall eu cyfrifoldebau o ran codi pryderon yn llawn. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny.

Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn ardaloedd o'r adeilad ond ar y cyfan, mae'r amgylchedd cyffredinol yn dal i fethu â chefnogi'r bobl i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae angen gwneud gwaith addurno i'r décor sydd wedi dyddio, y dodrefn nad yw'n cydweddu a'r carpedi sydd wedi'u difrodi er mwyn cefnogi llesiant y bobl yn well. Nodwyd hyn fel Maes i'w Wella o'r blaen ac mae bellach wedi cael ei uwchgyfeirio i Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae gan y bobl lais am eu bod nhw a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn yr ymweliadau Rheoliad 73 chwarterol. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn adroddiad gyda chynllun gweithredu clir a chaiff ei defnyddio i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth a gânt. Gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol a chyfeillgar rhwng y bobl oedd yn byw yn y cartref a'r unigolion sy'n gweithio yn y cartref. Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Dywedodd y bobl wrthym *"They (care workers) are great, they gave me the push to get myself better"* a *"They (care workers) have been great in helping me get ready to move home and to get the right support"*. Mae'r staff yn deall y bobl ac yn cymryd amser i ddod i'w hadnabod, dywedodd un wrthym *"I can give something back to people; even if it's just chatting. All the little things are big things. I am proud being in a job where I can help".* Mae'r cynrychiolwyr hefyd yn gadarnhaol iawn am y gofal a'r cymorth a dywedodd un ohonynt wrthym *"The carers are excellent and so easy to talk to".*

Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu eu cynlluniau gofal. Mae'r rheolwr hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr yr unigolion, gweithwyr gofal a gweithwyr proffesiynol allanol i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i greu llyfrau atgofion a dywedodd gweithiwr wrthym *"The memory books have bought joy to families and people".* Mae uwch-aelodau o'r staff yn adolygu'r cynlluniau gyda'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol o hyd. Mae'r ddogfennaeth yn dangos tystiolaeth dda o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynnwys. Mae'r nodiadau dyddiol yn llawn gwybodaeth ac yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a roddwyd, y prydau a gafodd eu bwyta, gweithgareddau a disgrifiad o'r diwrnod o safbwynt y person.

Mae'r gwasanaeth yn recriwtio staff newydd ac yn defnyddio asiantaeth i sicrhau bod lefelau staffio digonol ar waith er mwyn diwallu anghenion y bobl. Mae'r staff yn ymatebol i'r bobl a gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol a phwyllog yn ystod yr arolygiad.

Nid yw'r cyfyngiadau ymweld wedi cael eu llacio yn unol â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn golygu bod ymwelwyr y bobl yn gorfod trefnu apwyntiadau a chwrdd â'u hanwyliaid mewn ystafell ddynodedig yn hytrach na chael y rhyddid i gwrdd unrhyw le a phryd bynnag pan maent yn dewis.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym am effaith negyddol polisi ymweliadau cyfyngol y darparwr. Dywedodd un ohonynt *"It is so sad that relatives can't see family when they want to. People need their families and families need them. It would be lovely to see family and friends come through those doors again. It would lift everyone's spirit; let them come".* Yn dilyn yr arolygiad mewn cyfarfod adborth gyda'r darparwr, gwnaeth gadarnhau ei fod wedi cymryd camau i ganiatáu i'r bobl gael ymwelwyr pryd a lle maent yn dewis.

## Yr Amgylchedd

Nodwyd yr amgylchedd fel Maes i'w Wella yn yr arolygiad llawn ddiwethaf ac roedd gan y darparwr gynllun uwchraddio ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn. Rhoddwyd rhaglen adnewyddu ffenestri helaeth ar waith a gosodwyd system clychau galw newydd. Fodd bynnag, nid yw'r décor wedi newid. Gwelsom bapur wal yn plicio, llawr wedi'i ddifrodi a dodrefn nad oedd yn cydweddu drwy'r gwasanaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod eisiau gweld gwelliannau i'r amgylchedd a dywedodd un ohonynt *"The décor doesn't match the energy in the home. We are told there is a plan but it takes a long time to get anything done and we are still waiting".* Dywedodd cynrychiolwyr y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym nad ydynt wedi gweld llawer o'r tu mewn i'r cartref oherwydd y polisi ymweld ond eu bod wedi cael gwybod am y cynlluniau i addurno a diweddaru'r gwasanaeth.

Mae'r darparwr wedi buddsoddi yn yr adeilad ond mae diffyg uwchraddio'r addurn yn effeithio ar lesiant y bobl ac rydym wedi cyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ddatrys y materion hyn.

Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely eu hunain gyda'u lluniau a'u dodrefn eu hunain. Mae gan ddrysau unigol daflen wybodaeth ffotograffig am y person i'w helpu i symud o amgylch y cartref. Mae'r gerddi yn hygyrch ac mae'r bobl yn mwynhau defnyddio'r tŷ gwydr yn ystod y misoedd cynhesach i dyfu eu cynnyrch eu hunain.

Cwblheir archwiliadau Iechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo. Mae profion y cyfarpar diogelwch tân yn gyfredol ac mae'r darparwr yn rhoi camau gweithredu ar waith yn dilyn archwiliad diogelwch tân er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau tân. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teilwra i'r unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid oes gan y darparwr drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Caiff ymweliadau Rheoliad 73 eu cwblhau bob tri mis, ac mae'r adroddiad ymweliad dilynol yn dangos yr ymgynghorir â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis yn defnyddio gwybodaeth o archwiliadau ac yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen yn glir ar gyfer gwella'r gwasanaeth.

Mae'r rheolwr yn datblygu diwylliant agored a chefnogol yn y gwasanaeth. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *"[Manager] is great, really good, she's excellent and very approachable".* Mae parch mawr tuag at y rheolwr ac mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn ei hoffi. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"[Manager] is great, I can go to her and she will do her best. She's very approachable and it makes a big difference".*

Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ond eu bod yn gallu trafod unrhyw beth â'u rheolwyr llinell pryd bynnag y dymunant. Drwy drafodaethau â'r staff, gwelwyd bod ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion diogelu. Mae gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisïau allweddol.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys geirdaon, yr hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae staff newydd yn cael sesiynau sefydlu cynhwysfawr a hyfforddiant parhaus gorfodol, ac sy'n benodol i'r person, er mwyn diwallu anghenion y bobl. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym "*Training is interesting and helpful".* Mae'r rhaglen sefydlu yn gysylltiedig â deilliannau dysgu unigol a 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'.

Mae digon o staff yn gweithio i ddiwallu anghenion y bobl. Mae llawer o'r gweithwyr gofal wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Maent wedi meithrin cydberthnasau da â'r bobl ac yn deall eu hamgylchiadau a'u hanghenion unigol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Y dystiolaeth Roedd yr amgylchedd eisoes wedi'i nodi fel Maes i'w Wella yn dilyn ein harolygiad llawn diwethaf (17.08.2021). Nid yw'r darparwr wedi cwblhau'r cynllun addurno a oedd ganddo ar waith a nodwyd y canlynol yn ystod yr arolygiad. Papur wal sy'n plicio oddi ar y wal, gwaith paent wedi'i ddifrodi. Carpedi a lloriau sy'n hen ac wedi'u difrodi. Ystafelloedd gwely â dodrefn a décor wedi'u difrodi, nad oeddent yn cydweddu â'i gilydd. Mae'r staff a chynrychiolwyr y bobl eisiau gweld gwelliant o ran décor y cartref er mwyn gwella ansawdd bywydau'r bobl. Yr effaith ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yw nad yw'r amgylchedd yn cefnogi llesiant y bobl. | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/05/2023